**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Yr Athro Dyfed Wyn Huws
Cyfarwyddwr
Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru

11 Gorffennaf 2023

Annwyl Dyfed

Gwybodaeth bellach ar ganser gynaecolegol

Diolch ichi am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 29 Mehefin 2023. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi ychydig o wybodaeth bellach i ni, yn unol â'r isod.

Yn ystod y cyfarfod fe ddwedoch chi fod yna gamddealltwriaeth o ran gwybodaeth ynghylch canser. Ein dealltwriaeth ni yw bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn casglu'r data crai ac yn ei goladu ar lefel genedlaethol. Caiff hwnnw, wedyn, ei rannu â WCISU er mwyn sicrhau ansawdd safonau ymchwil rhyngwladol, ac er mwyn dadansoddi a chyhoeddi'r data perthnasol ar nifer yr achosion, marwolaethau a goroesiad ac ati (fel y nodir yn ei gyfrifoldebau statudol). Mae uned gyflenwi'r GIG (sydd bellach yn rhan o Weithrediaeth y GIG) yn gyfrifol am ddata gwasanaeth-benodol, h.y. data am amseroedd aros ar gyfer canserau gynaecolegol, nad yw wedi'i ddadgyfuno.

- A wnewch chi gadarnhau a yw ein dealltwriaeth yn gywir?

At hynny, fe ddwedoch chi fod y cyfraddau goroesi ar gyfer canser yr ofari ymhlith y gwaethaf yn y DU, a bod cyfraddau goroesi canser ceg y groth wedi gwaethygu. Dwedoch mai un o'r rhesymau dros hynny oedd bod gormod o fenywod yn cael diagnosis hwyr, a thrwy adrannau achosion brys.

- A oes gyda chi unrhyw ddata neu wybodaeth bellach y gallwch chi ei rannu gyda ni ar y duedd hon?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth hon erbyn 21 Awst 2023 er mwyn helpu i lywio ein proses o graffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.